
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu ar gyfer Practis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Cox and Hitchcock Dental Group (Thornhill Road), Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 25 Awst 2026

Dyddiad cyhoeddi: 25 Tachwedd 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr gan fod ieithoedd a fformatau amgen yn cael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80853-746-2

© Hawlfraint y Goron 2026



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom 5

2. Crynodeb o'r arolygiad 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym 9

   Ansawdd Profiad y Claf 9

   Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol 13

   Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth 17

4. Y camau nesaf 20

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad 21

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith 23

Atodiad C – Cynllun gwella 24



1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Cox and Hitchcock Dental Group (Thornhill Road), Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 25 Awst 2026.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un arolygydd gofal iechyd AGIC ac un adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 33 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu cefnogi'n dda a bod gwybodaeth ar gael am wasanaethau a chynnych orthodontig a deintyddiaeth gosmetig. Er i'r cleifion ddweud ei bod yn hawdd deall cyngor ar ofal iechyd y geg, nodwyd cyfleoedd i ehangu proses hybu iechyd y geg oedd ar gael i gleifion.

Gwelsom fod y staff yn trin y cleifion mewn ffordd garedig, proffesiynol a pharchus, gan greu amgylchedd croesawgar. Roedd mesurau priodol ar waith i gefnogi preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd y cleifion.

At ei gilydd, gallai'r cleifion gael gofal mewn ffordd a oedd yn ystyried eu hanghenion. Roedd trefniadau ar waith i gefnogi apwyntiadau amserol tra roedd prosesau effeithiol ar waith i gyfathrebu achosion o oedi â chleifion ac ymateb i anghenion gofal brys.

Gwelsom fod y practis yn hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant, gyda'r staff yn cymryd camau priodol i ddiwallu anghenion a dewisiadau unigol y cleifion. Roedd addasiadau rhesymol ar waith i gefnogi mynediad a sicrhau y gallai'r cleifion gael gofal mewn amgylchedd addas.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau y caiff dewisiadau iaith cleifion eu nodi a'u cofnodi, a bod yr opsiwn i gael triniaeth yn Gymraeg yn cael ei gynnig.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn gwrtais, yn gyfeillgar ac yn groesawgar, gan drin y cleifion yn broffesiynol a pharchus.
- Roedd y llinellau ffôn yn cael eu hateb yn ystod amser cinio.
- Amseroedd apwyntiadau gwarchodedig ar gyfer teuluoedd â phlant a chleifion sy'n gweithio.
- Mae gwasanaeth cyfieithu priodol ar gael
- Addasiadau rhesymol niferus i alluogi mynediad cyfartal gan gynnwys ychwanegu marcwyr cadeiriau olwyn at nodiadau'r cleifion er mwyn gallu cynnal apwyntiadau yn neintyddfeydd y llawr gwaelod.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn lân ac yn addas at y diben, gyda threfniadau priodol i sicrhau parhad y gwasanaeth yn ystod argyfyngau. Roedd y trefniadau iechyd a diogelwch a diogelwch tân yn gynhwysfawr, gydag asesiadau risg, hyfforddiant staff a monitro rheolaidd ar waith.

Gwelsom safonau uchel o lendid a threfniadau atal a rheoli heintiau a dihalogi effeithiol. Gwnaethom nodi problemau gyda braich cadair ddeintyddol a oedd wedi'i difrodi ac ardal gwastraff clinigol heb ei diogelu, y gwnaeth y practis fynd i'r afael yn brydlon â'r ddau ohonynt yn ystod yr arolygiad.

Roedd trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli meddyginiaethau, gan gynnwys lle storio diogel, a chofnod clir o'r meddyginiaethau a oedd wedi'u rhoi. Roedd cyfarpar brys priodol ar gael ac yn cael ei gynnal a'i gadw, tra cwblhaodd staff hyfforddiant perthnasol i ymateb i argyfyngau meddygol. Gwelsom gyfarpar wedi'i gynnal a'i gadw'n dda a phrosesau addas i reoli methiannau o ran y cyfarpar.

Roedd trefniadau priodol ar waith i reoli cofnodion cleifion ac roedd y rhai y gwnaethom edrych arnynt o safon dda ar y cyfan. Ond gwnaethom nodi rhai bylchau mewn nifer bach o gofnodion a gwnaethom awgrymu archwiliad o'r cofnodion clinigol er mwyn asesu a oedd y materion hyn yn gysylltiedig â newid diweddar mewn meddalwedd.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cynnal archwiliad o gofnodion clinigol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Practis glân iawn, wedi'i gyflwyno'n dda gyda deintyddfeydd wedi'u dylunio'n dda
- Mesurau da i gydymffurfio â diogelwch tân
- Trefniadau diogelu da gyda siartiau llif cyfeirio cyflym ar gael ym mhob deintyddfa.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Dangosodd y practis drefniadau arwain a llywodraethu effeithiol, gyda strwythur rheoli clir, diwylliant tîm cadarnhaol ac ymrwymiad i ddarparu gofal o ansawdd uchel. Gwelsom fod ystod dda o bolisïau cyfredol a chyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal, ond gallai cofnodion gael eu datblygu ymhellach drwy gofnodi a monitro pwyntiau gweithredu.

Roedd trefniadau da ar gyfer recriwtio, hyfforddi staff a chydymffurfiaeth broffesiynol, gyda staff yn cael eu helpu i gynnal y sgiliau a'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer eu rolau. Roedd y prosesau hyfforddi ac arfarnu'n cael eu rheoli'n dda, ond roedd angen dogfennu cofnodion sefydlu i roi sicrwydd bod y broses sefydlu wedi'i chwblhau'n llawn.

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer casglu adborth gan gleifion a rheoli cwynion. Roedd adborth a chwynion yn cael eu hadolygu mewn ffordd addas, ond gellid gwella'r system cofnodi cwynion i wneud gwybodaeth yn haws ei nodi a'i monitro, wrth i ni drafod opsiynau i ddangos sut roedd adborth gan gleifion wedi arwain at welliannau i'r gwasanaeth.

Roedd ystod eang o weithgareddau gwella ansawdd yn cael eu cefnogi gan archwiliadau amrywiol ac adnoddau gwella cydnabyddedig. Roedd y gweithgareddau archwilio'n dangos proses casglu data dda, ond nid oedd y broses o ddadansoddi canfyddiadau a nodi a monitro gwelliannau yn amlwg bob amser.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod y staff yn parhau i fod yn addas i weithio yn y practis
- Sicrhau bod prosesau archwilio clinigol yn cael eu cwblhau gyda dadansoddiad data a chamau gweithredu wedi'u dogfennu.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trefniadau llywodraethu da i sicrhau bod y staff wedi darllen a deall polisïau'r practis
- Roedd cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn dda iawn gyda systemau monitro hysbysiadau effeithiol ar waith.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Roedd yr adborth gan gleifion yn gadarnhaol iawn ar y cyfan, gyda'r ymatebwyr yn disgrifio mynediad da at apwyntiadau, gofal parchus a gwybodus, amgylchedd glân, a lefel uchel o foddhad â'r gwasanaeth a gafwyd. Nododd yr ymatebwyr fod y gwasanaeth roeddent yn ei gael gan y practis yn 'dda iawn' (29/32) neu'n 'dda' (3/32).

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *" Mae staff y dderbynfa bob amser yn groesawgar iawn ac yn barod i helpu."*
>
> *"O staff y dderbynfa i'm deintydd gwych, rwyf wedi teimlo bod croeso mawr i mi ac rwy'n gwbl ffyddiog bod fy anghenion deintyddol yn cael eu diwallu."*
>
> *"Staff ardderchog. Rwy'n teimlo fy mod i'n cael gofal da bob amser – maen nhw mor bwyllog a charedig."*

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod cryn dipyn o wybodaeth yn ymwneud â sythu dannedd a gwasanaethau cosmetig i'r dannedd ar gael yn yr ardal aros i gleifion. Roedd ffioedd triniaethau'r GIG a thriniaethau preifat wedi'u harddangos yn glir. Fodd bynnag, gwelsom mai swm cyfyngedig o wybodaeth berthnasol am ofal iechyd deintyddol oedd ar gael a oedd yn cynnwys rhoi'r gorau i smygu yn bennaf. Gallai'r practis ystyried darparu gwybodaeth ychwanegol am bynciau iechyd y geg ehangach, fel ymwybyddiaeth o ganser y geg a bwyta'n iach.

Roedd gan y practis ddatganiad o ddiben cyfredol tra roedd y daflen wybodaeth i gleifion wrthi'n cael ei hadolygu adeg yr arolygiad. Gwelsom nad oedd gwefan gyfredol y practis yn cynnwys y naill ddogfen na'r llall ond dywedwyd wrthym fod y wefan yn y broses o gael ei hail-ddylunio. Cawsom sicrwydd y bydd y ddwy yn cael eu cynnwys ar y wefan newydd pan gaiff ei lansio.

Gwelsom fod enwau aelodau'r tîm deintyddol, a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, wedi'u harddangos yn glir i'r cleifion.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a atebodd holiadur AGIC i gleifion wrthym fod gofal y geg wedi'i esbonio iddynt mewn ffordd y gallent ei deall a'u bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i gynnal iechyd y geg da.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom y staff yn rhyngweithio â'r cleifion drwy'r arolygiad a gwelsom fod y staff yn gwrtais, yn gyfeillgar ac yn groesawgar, gan drin y cleifion yn broffesiynol a pharchus. Roeddem yn teimlo bod hwn yn un o gryfderau'r practis, yn enwedig mewn perthynas â staff y dderbynfa.

Roedd desg y dderbynfa a'r ddwy ardal aros wedi'u cysylltu heb unrhyw le ar wahân i roi preifatrwydd wrth i'r cleifion fynd i'r dderbynfa. Dywedwyd wrthym os oedd angen mwy o breifatrwydd ar gleifion ar gyfer trafodaethau cyfrinachol, yna gellid defnyddio deintyddfa wag neu swyddfa ar y llawr cyntaf.

Gwelsom fod drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau ac ymgyngoriadau er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion, ac roedd bleinds wedi'u gosod ar bob ffenestr i atal unrhyw un o'r tu allan rhag gallu gweld i mewn i'r deintyddfeydd.

Mae naw safon y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y tîm deintyddol wedi'u harddangos yn glir yn yr ardal aros, tra roedd pob aelod o'r staff wedi llofnodi cytundeb cyfrinachedd i sicrhau bod gwybodaeth i gleifion yn cael ei diogelu.

Roedd pob ymatebydd ond un a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch yn y practis.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael a'r risgiau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r opsiynau triniaeth hynny. Lle bo hynny'n berthnasol, roedd pawb a ymatebodd yn cytuno eu bod wedi cael gwybodaeth glir am brisiau cyn iddynt ddechrau cael triniaeth.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr ond dau wrthym eu bod wedi cael eu cynnwys gymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau am eu triniaeth, tra gwnaeth pawb gadarnhau bod eu hanes meddygol wedi'i wirio cyn iddynt gael triniaeth.

Amserol

Gofal amserol

Roedd oriau agor a threfniadau cyswllt y tu allan i oriau'r practis yn cael eu harddangos wrth fynedfa'r practis. Dywedwyd wrthym fod rhai cyfnodau o amser yn cael eu clustnodi i deuluoedd gyda phlant a chleifion sy'n gweithio. Dywedwyd wrthym fod yr amseroedd aros rhwng apwyntiadau trin tua phedair wythnos yn dibynnu ar y driniaeth a'r clinigydd.

Dywedwyd wrthym fod unrhyw achosion o oedi i apwyntiadau yn cael eu cyfleu i'r cleifion yn brydlon. Roedd defnyddio system negeseuon gwib rhwng y tîm clinigol a thîm y dderbynfa yn galluogi hyn.

Byddai angen i gleifion yr oedd angen triniaeth frys arnynt ffonio'n gynnar gyda'r nod o'u gweld ar yr un diwrnod, ac roedd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r plant a'r cleifion a oedd yn nodi eu bod yn gwaedu a bod ganddynt chwydd. Dywedwyd wrthym bod y ffonau'n cael eu hateb yn ystod amser cinio, ac roeddem yn ystyried bod hyn yn arfer da.

Dywedodd pawb ond un a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion ei bod yn hawdd cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Dywedodd dwy ran o dair o'r ymatebwyr eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau ar gyfer problemau deintyddol brys, dywedodd 11 ymatebydd nad oeddent yn gwybod sut i wneud hynny. Dylai'r rheolwr cofrestredig fyfyrio ar y materion a godwyd yn yr adborth hwn er mwyn sicrhau bod cleifion yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom mai yn Saesneg yn bennaf roedd yr arwyddion yn y practis. Roedd arwydd yn hyrwyddo'r Cynnig Rhagweithiol a oedd yn cynghori'r cleifion i ofyn am gael triniaeth yn Gymraeg os byddai'n well ganddynt hynny. Dywedwyd wrthym fod aelodau o'r staff sy'n siarad Cymraeg yn y practis ac mewn cangen gyfagos o'r practis os byddai angen. Roedd gwybodaeth berthnasol yn cael ei harddangos yn ystafell y staff i gefnogi'r staff oedd yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis hefyd staff a allai siarad sawl iaith arall gan gynnwys Pwyleg, Rwmaneg ac Arabeg. Gwelsom fod gwasanaeth cyfieithu priodol ar waith ar gyfer cleifion nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf, ac roedd staff y dderbynfa'n gwybod sut i drefnu'r gwasanaeth hwn.

Fodd bynnag, yn ystod ein hadolygiad o gofnodion wyth claf, gwelsom fod dewis iaith y claf ar goll o bob cofnod. Yn ogystal, nododd un ymatebydd a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion a oedd wedi nodi mai Cymraeg oedd ei ddewis iaith, nad oedd wedi cael cynnig y cyfle i siarad Cymraeg yn y practis.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff dewisiadau iaith y cleifion eu nodi a'u cofnodi yng nghofnodion y cleifion fel mater o drefn, a bod y trefniadau'n cefnogi'r gwaith o gydnabod a darparu'n rhagweithiol ar gyfer anghenion cyfathrebu'r cleifion, gan gynnwys gofynion y Gymraeg.

Gellid trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb yn y dderbynfa, gan sicrhau y gallai cleifion heb fynediad at ddyfeisiau digidol drefnu triniaethau. Gallai cleifion a oedd yn drwm eu clyw drefnu apwyntiadau drwy e-bost neu neges destun. Dim ond cleifion preifat oedd â'r hawl i drefnu apwyntiadau ar-lein drwy wefan y practis.

Hawliau a chydraddoldeb

Roedd hi'n glir bod y practis yn ymrwymedig i roi gofal deintyddol mewn modd a oedd yn

cydnabod hawliau ac anghenion eu cleifion. Dywedwyd wrthym fod y cleifion wedi cael y dewis i gael eu cyfarch gan yr enw a'r rhagenwau maent yn eu ffafrio. Gwelsom fod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cyfredol ar waith yn y practis a bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar hyn.

Cawsom ragor o enghreifftiau o'r ffordd roedd y practis wedi gwneud addasiadau rhesymol er mwyn helpu mynediad i gleifion, gan gynnwys mynediad gwastad i'r adeilad a helpu'r cleifion i ddarllen ffurflenni a dogfennaeth arall. Gwelsom sbectol darllen yn cael ei roi ar fenthyg i glaf a oedd wedi anghofio ei sbectol ei hun.

Roedd y practis ar lawr gwaelod a llawr cyntaf yr adeilad gyda dwy ddeintyddfa yr un ar y ddau lawr. Roedd toiled hygyrch cyflawn hefyd ar gael ar y llawr gwaelod. Cawsom wybod y byddai marciwr yn cael ei roi yn nodiadau'r cleifion mewn cadeiriau olwyn a chleifion â symudedd cyfyngedig er mwyn i'r staff wybod i drefnu eu triniaeth yn un o'r deintyddfeydd ar y llawr gwaelod. Gwelsom fod y trefniadau hyn wedi'u cyfathrebu drwy daflen wybodaeth y practis i gleifion.

Cadarnhaodd pawb a atebodd y cwestiwn yn holiadur AGIC i gleifion nad oeddent wedi profi unrhyw achosion o wahaniaethu yn y practis.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Ar y cyfan, roedd y practis deintyddol mewn cyflwr da. Roedd digon o le yn y deintyddfeydd a'r ardaloedd aros, roeddent wedi'u dylunio'n dda, roeddent yn gyfforddus ac nid oedd unrhyw annibendod. Roedd yr ardaloedd i gyd wedi'u haddurno a'u dodrefnu i safon dda. Gwelsom fod ystafell y gellir ei chloi ar gael i'r staff newid eu dillad ac i storio eu heiddo personol.

Roedd polisi cyfredol ar gyfer cynnal a chadw'r adeilad yn y practis a oedd yn helpu i sicrhau bod yr adeilad yn parhau'n addas at y diben. Gwelsom hefyd fod polisi parhad busnes ar waith, a oedd yn cynnwys gweithdrefnau i'w dilyn pe na fyddai'n bosibl defnyddio'r practis yn sgil digwyddiad brys. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio cangen gyfagos o'r practis i sicrhau bod gwasanaethau i gleifion yn parhau.

Roedd y practis yn darparu asesiad risg a pholisi iechyd a diogelwch, ac roedd poster iechyd a diogelwch cymeradwy a thystysgrif yswiriant atebolrwydd y cyflogwr wedi'u harddangos fel sy'n ofynnol. Roedd Adroddiad ar Gyflwr Gosodiadau Trydanol sy'n cael ei gwblhau bob pum mlynedd, ynghyd â chofnodion o Brofion Offer Cludadwy a thystysgrif diogelwch nwy flynyddol ar gael ac roeddent yn gyfredol.

Gwelsom drefniadau da ar gyfer diogelwch tân a oedd yn cynnwys asesiad risg tân gyda phwyntiau gweithredu'n cael eu cwblhau a'u cymeradwyo. Roedd diffoddwyr tân ar gael ac roeddent wedi cael eu gwasanaethu o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Roedd allanfeydd tân yn glir ac roedd arwyddion ar eu cyfer wrth i wiriadau wythnosol o'r larymau tân ac ymarferion tân rheolaidd gael eu cofnodi. Roedd arwyddion dim smygu wedi'u harddangos yn unol â'r ddeddfwriaeth. Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a chadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelwch tân perthnasol.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod pob ardal yn lân iawn ac wedi'i dodrefnu'n briodol fel y gellid ei glanhau'n effeithiol. Fodd bynnag, roedd y defnydd ar fraich un o'r cadeiriau deintyddol wedi'i ddifrodi rhyw ychydig, tra roedd angen newid darn anghywir i'r fraich a oedd wedi'i ddarparu gan y cyflenwr. Gwnaethom drafod opsiynau addas i alluogi'r practis i barhau i ddefnyddio'r gadair wrth aros am y fraich newydd.

Roedd polisi atal a rheoli heintiau priodol ar waith, gydag arweinydd practis wedi'i benodi. Roedd arferion cyfredol ar gyfer rheoli afiechydon anadlol yn cael eu hystyried yn briodol ac o safon dda. Fodd bynnag, nid oedd y trefniadau hyn wedi'u dogfennu'n glir yn y polisi atal a rheoli heintiau. Hwyrach y byddai'r practis yn dymuno adolygu ei ddogfennaeth atal a rheoli heintiau i sicrhau bod trefniadau ar gyfer rheoli heintiau

anadlol yn cael eu cyfeirnodi'n ddigonol.

Roedd amserlenni'n cael eu defnyddio er mwyn helpu i gefnogi arferion glanhau, ac roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff fel y bo angen. Gwnaethom drafod sut mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod mopiau newydd a ganfuwyd yn yr ystafell ddihalogi adeg yr arolygiad yn cael eu storio'n briodol pan na chânt eu defnyddio.

Gwelsom fod biniau offer miniog yn cael eu storio a'u labelu'n addas gyda phrotocolau nodwyddau yn cael eu harddangos ym mhob deintyddfa er mwyn helpu'r staff pe bai digwyddiad. Dywedwyd wrthym fod cymorth gan iechyd galwedigaethol ar gael i'r staff.

Roedd trefniadau addas i'w gweld ar gyfer dihalogi offer deintyddol amldro gyda gwiriadau dyddiol a chofnodion digidol o gylchoedd yn cael eu cadw. Disgrifiwyd system briodol ar gyfer cludo offer yn ddiogel rhwng y deintyddfeydd a'r ardal ddihalogi. Gwelsom dystiolaeth fod y cyfarpar dihalogi yn cael ei gynnal a'i gadw fel sy'n ofynnol a bod archwiliad atal a rheoli heintiau wedi cael ei gwblhau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.

Roedd trefniadau priodol ar waith i waredu gwastraff a gynhyrchwyd gan y practis. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y clo i'r ardal storio gwastraff clinigol wedi'i gau a oedd yn golygu bod yr ardal yn anniogel. Gwnaethom godi hyn â'r rheolwr cofrestredig, a drefnodd i'r mater gael ei ddatrys. Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth ar adeg yr arolygiad. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn Atodiad A.

Gwelsom fod sylweddau y mae'r rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn berthnasol iddynt yn cael eu storio'n ddiogel. Roedd pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau perthnasol.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd polisi rheoli meddyginiaethau ar waith yn y practis. Roedd prosesau addas ar waith i reoli meddyginiaethau gan gynnwys storio stoc yn ddiogel a chael gwared ar stoc a oedd wedi dod i ben yn ddiogel gyda fferyllfa leol. Roedd gan y practis oergell meddyginiaethau ddynodedig, a gwelsom fod gwiriadau tymheredd yn cael eu cofnodi'n ddyddiol.

Roedd meddyginiaethau a roddwyd yn cael eu cofnodi'n glir yng nghofnodion y cleifion ac roedd hysbysiadau wedi'u harddangos ar sgriniau gwybodaeth i atgoffa'r cleifion i roi gwybod i'r practis am unrhyw newidiadau i'w hanes meddygol, ac roedd hyn yn arfer da yn ein barn ni.

Roedd polisi argyfyngau meddygol priodol yn y practis a oedd yn seiliedig ar y canllawiau adfywio cenedlaethol. Gwelsom fod cyffuriau a chyfarpar brys ar gael ac yn gyfredol, ac roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar adfywio.

Roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael ac yn cynnwys eitemau priodol ac roedd pob eitem

yn gyfredol. Roedd y silindrau ocsigen wedi cael eu gwasanaethu, ac roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol i'w defnyddio.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Roedd pob deintyddfa yn cynnwys digon o gyfarpar i ddarparu triniaethau deintyddol diogel ac effeithiol. Roedd y cyfarpar clinigol i'w weld yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, a gwelsom brosesau addas i reoli unrhyw fethiant o ran cyfarpar.

Darparodd y practis ddogfennaeth i ddangos bod trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar pelydr-X yn ddiogel. Roedd hyn yn cynnwys rhestr o gyfarpar, rheolau lleol cyfredol, asesiad o'r risg o ymbelydredd a chofnodion cynnal a chadw cyfarpar pelydr-X. Roedd arwyddion rhybudd pelydr-X yn cael eu harddangos ar ddrws pob deintyddfa wrth i wybodaeth am risgiau a manteision pelydrau-X deintyddol gael eu harddangos yn ystod yr arolygiad. Fodd bynnag, ni allai'r practis ddarparu trefniadau ysgrifenedig ar gyfer gofalwyr a chysurwyr sy'n helpu'r cleifion yn ystod cysylltiadau pelydr-X.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod trefniadau wedi'u dogfennu'n cael eu rhoi ar waith i ofalwyr a chysurwyr sy'n helpu gyda phelydrau-X a rhoi copi ohonynt i AGIC pan fyddant wedi'u cwblhau.

Roedd pob aelod o staff a oedd yn gysylltiedig â'r broses o gynnal archwiliadau pelydr-X wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol, a gwelsom dystiolaeth o hyn yn y ffeiliau staff a welsom.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer diogelu plant ac oedolion agored i niwed sy'n ymweld â'r practis. Gwelsom bolisi diogelu cyfredol a oedd yn cynnwys manylion cyswllt y timau diogelu lleol. Roedd siartiau llif diogelu ar gael ym mhob deintyddfa i'r staff gyfeirio atynt pe bai pryder yn codi.

Gwelsom fod yr holl staff wedi'u hyfforddi i lefelau priodol yn ymwneud ag amddiffyn plant ac oedolion, tra roedd arweinydd diogelu wedi'i benodi gan y practis. Roedd Gweithdrefnau Diogelu Cymru wedi'u lawrlwytho, gan sicrhau bod y canllawiau cyfredol ar gael. Dywedwyd wrthym fod cymorth ar gael i'r staff gan arweinydd y practis a thrwy ddarparwr adnoddau dynol trydydd parti pe byddai pryder diogelu yn codi.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Cawsom sicrwydd bod y staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau, gyda staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol ar gael yn y practis i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd system fentora sefydledig ar waith yn sicrhau bod cyngor proffesiynol ar gael i'r staff pan oedd yn ofynnol, tra roedd canllawiau statudol yn cael eu dilyn a'u dangos mewn nodiadau clinigol.

Roedd y practis yn defnyddio'r rhestrau gwirio a argymhellir er mwyn helpu i leihau'r risg o dynnu'r dant anghywir. Gwelsom fod atgyfeiriadau am driniaeth yn cael eu monitro, eu holrhain a'u dogfennu'n addas yng nghofnodion y cleifion.

Cofnodion cleifion

Roedd system rheoli cofnodion priodol ar waith i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu rheoli a'u cadw'n ddiogel yn unol â'r Rheoliadau. Gwelsom fod polisi cydsynio i driniaeth ar waith, ynghyd â phrosesau addas ar gyfer asesu a rheoli hawliau'r cleifion nad oes ganddynt alluedd i gydsynio.

Gwnaethom edrych ar sampl o wyth cofnod gofal deintyddol ar gyfer amrywiaeth o gleifion. Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod ansawdd cofnodion y cleifion yn dda a bod dynodyddion cleifion addas, hanes meddygol llawn a phroses sgrinio am ganser y geg i gyd wedi'u cofnodi. Er i ni weld tystiolaeth o gynllunio triniaethau, gwelsom nad oedd cyngor ar roi'r gorau i smygu wedi'i gofnodi ar un cofnod a bod dosau gwrthfiotigau ar goll o ddau gofnod lle roedd y rhain yn berthnasol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod y practis wedi newid meddalwedd yn ddiweddar a oedd yn creu rhai problemau i bob golwg lle nad oedd rhywfaint o wybodaeth wedi trosglwyddo o'r hen system. Gwnaethom awgrymu bod archwiliad o gofnodion clinigol newydd yn cael ei gynnal er mwyn helpu i nodi'r rheswm a hyd a lled y mater.

Rydym yn argymell bod y practis yn cynnal archwiliad o gofnodion clinigol a rhoi copi i AGIC pan fydd wedi'i gwblhau.

Effeithlon

Effeithlon

Gwnaethom ystyried bod y cyfleusterau a'r safle yn briodol ar gyfer y gwasanaethau a gyflwynir, gyda sesiynau clinigol yn cael eu defnyddio'n effeithlon. Gwelsom fod hylenwyr a therapyddion yn cael eu defnyddio'n effeithiol fel rhan annatod o lwybrau trin, wrth i gydlynydd cleifion mewn cangen o'r practis fonitro atgyfeiriadau. Roedd rhestr byr rybudd yn cael ei rheoli gan y derbynnydd er mwyn helpu i lenwi unrhyw apwyntiadau a oedd wedi'u canslo.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Mae'r practis mewn partneriaeth â sawl cangen arall o'r practis ac mae strwythur tîm clir ar waith. Roeddem o'r farn bod y practis yn cael ei arwain yn dda a bod ymrwymiad clir i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i gleifion. Roedd y tîm rheoli i'w weld yn agored ac yn hawdd i'r staff fynd atynt, wrth i ni nodi bod ysbryd da ymhlith tîm cyfan y practis.

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol a hysbysiadau diogelwch â thîm y practis, gan gynnwys cyfarfodydd wyneb yn wyneb ac ar-lein. Gwelsom fod cofnodion yn cael eu cadw o gyfarfodydd a'u bod yn cael eu rhannu ag aelodau o staff nad oeddent yn gallu mynychu. Gwnaethom drafod datblygu'r cofnodion drwy dynnu sylw at unrhyw gamau gweithredu a sicrhau bod cyfarfodydd dilynol yn mynd ar drywydd y rhain.

Gwelsom fod amrywiaeth dda o bolisïau cyfredol ar gael i gefnogi'r staff yn eu rolau. Gwelsom fod polisïau'n cael eu cwmpasu fel rhan o'r broses sefydlu staff, gyda mynegai o bolisïau'n cael eu llofnodi gan y staff. Gwelsom hefyd fod ffolderi personol a oedd yn cynnwys rhestr o bolisïau a oedd wedi'u ticio a'u llofnodi i gadarnhau eu bod wedi cael eu darllen. Roedd diweddariadau wedi'u harddangos ar hysbysfwrdd y staff a'u trafod yng nghyfarfodydd chwarterol y nyrsys.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Roedd gan y practis bolisi recriwtio cyfredol a oedd yn cwmpasu gwiriadau cyn cyflogi a'r broses sefydlu, a rhoddwyd llawlyfrau staff i'r cyflogeion a oedd yn cwmpasu amodau cyflogaeth, y broses ddisgyblu a rhwymedigaethau o ran hyfforddiant. Gwnaethom edrych ar ffeiliau'r staff a gwelsom fod contractau cyflogaeth wedi'u llofnodi'n cael eu cadw ym mhob un, ond gwelsom nad oedd sesiynau sefydlu wedi'u dogfennu. Dylai'r practis ystyried sicrhau bod sesiynau sefydlu'n cael eu dogfennu, eu llofnodi a'u dyddio gan uwch-aelodau o'r staff er mwyn darparu tystiolaeth a rhoi sicrwydd bod y broses wedi'i chwblhau a'i hadolygu'n llawn.

Dywedwyd wrthym fod uwch-aelodau o'r staff yn monitro cydymffurfiaeth â gofynion cofrestru'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Ar y cyfan, ystyriwyd bod cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau proffesiynol yn dda gyda thystiolaeth o sgrinio iechyd ac imiwneiddiadau'n cael eu cadw ar ffeil. Gwelsom nad oedd geirdaon ysgrifenedig ar gael bob amser i gyflogeion, roedd copïau o'r ceisiadau hyn yn cael eu cadw i ddangos cydymffurfiaeth â'r broses. Roedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar waith ar gyfer y rhan fwyaf o'r staff, gwnaethom nodi mai 2021 oedd y dyddiad ar dri

ohonynt. Ni welsom dystiolaeth fod gwiriadau neu ddatganiadau eraill wedi dod i law i nodi unrhyw newidiadau yn statws Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd y staff.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod trefniadau priodol ar waith er mwyn helpu'r practis i sicrhau bod y staff yn parhau i fod yn addas i weithio yn y practis.

Gwelsom fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau yn y practis. Roedd anghenion hyfforddiant ychwanegol yn cael eu nodi drwy'r broses arfarnu flynyddol a oedd yn cael eu cofnodi a'u cadw yn ffeiliau'r staff. Roedd cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn dda iawn ar y cyfan ac yn cael ei monitro'n addas gan reolwyr y practis gyda chymorth hysbysiadau gan feddalwedd cydymffurfiaeth y practis.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd trefniadau priodol ar waith i geisio barn cleifion am ansawdd y gofal a ddarperir yn y practis. Dywedwyd wrthym fod y canlyniadau yn cael eu hadolygu a'u trafod mewn cyfarfodydd staff. Gwnaethom awgrymu fod y practis yn ystyried arddangos hysbysiad yn yr ardal aros i gleifion yn tynnu sylw at unrhyw gamau a gymerwyd mewn ymateb i adborth gan gleifion.

Roedd y practis yn arddangos gweithdrefn gwyno i gleifion, a oedd yn cynnwys terfynau amser perthnasol ar gyfer ymatebion a manylion cyswllt sefydliadau eraill y gallai cleifion gysylltu â nhw i gael cymorth neu pe byddent yn anhapus ag unrhyw ymateb. Dangoswyd i ni fod cwynion ac unrhyw ymchwiliadau dilynol yn cael eu cadw ar gyfrifiaduron y practis fel set o negeseuon e-bost. Fodd bynnag, gwelsom fod y system hon yn ddryslyd i'w llywio ac yn anodd i nodi cwynion penodol. Gwelsom fod y practisau eraill yn y grŵp yn defnyddio cofnodlyfr cwynion a gwnaethom awgrymu bod y practis hwn yn gwneud hyn hefyd.

Roedd polisi ar waith yn y practis ar gyfer y Ddyletswydd Gonestrwydd, a oedd yn rhoi arweiniad i'r staff. Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw ddigwyddiadau a oedd wedi sbarduno'r broses hon wedi dod i law hyd yma.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd polisi Diogelu Data priodol ar waith yn y practis. Cawsom ein sicrhau bod y practis yn cymryd cyfrinachedd a diogelu data o ddifrif a'i fod yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol. Dywedwyd wrthym fod copi wrth gefn addas yn cael ei gadw o'r cofnodion gan ddefnyddio llwyfan seiliedig ar gwmwl diogel.

Roedd systemau addas ar waith i gofnodi digwyddiadau cleifion. Gwelsom fod proses ddiogel ar waith i rannu gwybodaeth sy'n gysylltiedig â diogelwch â chyrff eraill y GIG.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd gan y practis bolisi priodol ar gyfer llywodraethu gweithgareddau gwella ansawdd. Rhoddwyd tystiolaeth inni o ystod eang o archwiliadau a oedd yn cynnwys radiograffeg, presgripsiynu gwrthfiotigau, gwastraff clinigol a rheoli heintiau. Gwnaethom drafod cynlluniau i gwblhau archwiliadau rhoi'r gorau i smygu ac Iechyd a Diogelwch. Roedd y broses casglu data yn dda ar y cyfan, ond gwelsom mewn rhai achosion nad oedd y data wedi'u hasesu, ac nad oedd gwelliannau wedi'u nodi, eu rhoi ar waith na'u monitro.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff prosesau archwiliadau clinigol eu cwblhau a'u dogfennu.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi defnyddio adnoddau gwella ansawdd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ond nad oedd wedi defnyddio rhai o'r adnoddau datblygu tîm sydd ar gael eto. Gwnaethom drafod manteision defnyddio'r adnoddau hyn i ddarparu fframwaith strwythuredig ar gyfer datblygu'r practis a'r staff, fel rhan o unrhyw weithgareddau gwella yn y dyfodol.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Fel rhan o grŵp mwy o faint o bractisau ledled De-ddwyrain Cymru, roedd y practis yn gallu rhannu gwybodaeth, sgiliau a phrofiad, gan sicrhau dull cyson o ddarparu gofal deintyddol i gleifion. Disgrifiodd rheolwr y practis y trefniadau addas sydd ar waith i ymgysylltu â darparwyr gwasanaethau gofal iechyd lleol, timau diogelu a gwasanaethau meddyg teulu. Gwnaeth trefniant gyda fferyllfa mewn man canolog olygu bod modd rheoli meddyginiaethau yn gydlynol ar draws y grŵp o bractisau.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Nid oedd y clo i'r ardal storio gwastraff clinigol wedi'i gau a oedd yn golygu nad oedd yr ardal yn ddiogel.	Gallai fod risg i'r cleifion ac ymwelwyr o heintiau cysylltiedig â gofal iechyd.	Gwnaethom godi hyn â'r rheolwr cofrestredig, a drefnodd i'r mater gael ei ddatrys ar unwaith.	Cafodd y clo ei gau a'r ardal ei diogelu.

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Cox and Hitchcock Dental Group (Thornhill Road)

Dyddiad yr arolygiad: 25 Awst 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Canfyddiadau	Ni nodwyd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn		
Yr hyn sydd angen ei wella		**Safon / Rheoliad**	
1.			
Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth:		**Swyddog cyfrifol**	**Amserlen**

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Cox and Hitchcock Dental Group (Thornhill Road)

Dyddiad yr arolygiad: 25 Awst 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

	Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Roedd dewisiadau iaith cleifion ar goll ym mhob un o'r cofnodion a welsom. Yn ogystal, nododd un ymatebydd a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion a oedd wedi nodi mai Cymraeg oedd ei ddewis iaith, nad oedd wedi cael cynnig y cyfle i siarad Cymraeg yn y practis.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff dewisiadau iaith y cleifion eu nodi a'u cofnodi yng nghofnodion y cleifion fel mater o drefn, a bod y trefniadau'n cefnogi'r gwaith o gydnabod a darparu'n rhagweithiol ar gyfer anghenion cyfathrebu'r cleifion, gan gynnwys gofynion y Gymraeg.	Rheoliad 13(1)(a)	Mae blychau ticio bellach wedi'u hychwanegu at y dempled archwilio a'r templed asesu. Mae'r clinigwyr i gyd yn ymwybodol bod yn rhaid iddynt gwblhau hyn ar ddechrau unrhyw gwrs newydd o driniaeth.	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau

2.	Ni allai'r practis ddarparu trefniadau ysgrifenedig ar gyfer gofalwyr a chysurwyr sy'n helpu'r cleifion yn ystod cysylltiadau pelydr-X.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod trefniadau wedi'u dogfennu'n cael eu rhoi ar waith i ofalwyr a chysurwyr sy'n helpu gyda phelydrau-X a rhoi copi ohonynt i AGIC pan fyddant wedi'u cwblhau.	Rheoliad 8(1)(e)	Mae'r polisi bellach ar waith.	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau
3.	Mae'r practis wedi newid meddalwedd yn ddiweddar a oedd yn creu rhai problemau lle nad oedd rhywfaint o wybodaeth wedi'i throsglwyddo. Gwnaethom awgrymu bod archwiliad o gofnodion clinigol yn cael ei gynnal er mwyn helpu i asesu'r rheswm a hyd a lled y mater.	Rydym yn argymell bod y practis yn cynnal archwiliad o gofnodion clinigol a rhoi copi i AGIC pan fydd wedi'i gwblhau.	Rheoliad 16(1)(a) a (2)(b)(i)	Mae'r archwiliad clinigol yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd. Byddaf yn anfon y canfyddiadau ymlaen cyn gynted â phosibl	Rheolwr y Practis	6 wythnos (ar y mwyaf)

4.	Roedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar waith ar gyfer y rhan fwyaf o'r staff, gwnaethom nodi mai 2021 oedd y dyddiad ar dri ohonynt. Ni welsom dystiolaeth fod gwiriadau neu ddatganiadau eraill wedi dod i law i nodi unrhyw newidiadau yn statws Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd y staff.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod trefniadau priodol ar waith er mwyn helpu'r practis i sicrhau bod y staff yn parhau i fod yn addas i weithio yn y practis.	Rheoliad 18(1)(a)	Roedd hyn yn esgeulus ohonom. Nid yw'r gwiriadau wedi'u cwblhau eto. Rydym yn aros am y tystysgrifau.	Rheolwr y Practis	Yn yr arfaeth
5.	Nid oedd unrhyw dystiolaeth fod data wedi'u dadansoddi, bod camau gweithredu neu welliannau wedi'u rhoi ar waith, na bod newidiadau wedi'u monitro a'u hailarchwilio ar gyfer rhai archwiliadau.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff prosesau archwiliadau clinigol eu cwblhau a'u dogfennu.	Rheoliad 16(1)(a)	O hyn ymlaen, bydd yr argymhelliad wedi'i gwblhau yn cael ei nodi ar bob archwiliad.	Rheolwr y Practis	Parhaus

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Sarah Rees

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 06 Hydref 2026